# Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Cynnydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd ar gyfer 2020: Lleihau Allyriadau yng Nghymru

Digital ISBN: 978-1-80195-495-2

# Cyd-destun

Ym mis Rhagfyr 2020 cyhoeddodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd (y Pwyllgor) ei adroddiad cynnydd cyntaf ar leihau allyriadau yng Nghymru, sy'n ofynnol o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.[1]

Roedd y Pwyllgor yn ystyried ein perfformiad wrth leihau allyriadau ers 1990, gan ganolbwyntio ar dueddiadau allyriadau yn ystod cyfnod y Gyllideb Garbon Gyntaf (2016–20). Gan ddefnyddio'r data diweddaraf ar allyriadau a oedd ar gael ar y pryd (2018), daeth y Pwyllgor i'r casgliad "bod Cymru ar ei ffordd i gyflawni ei tharged ar gyfer 2020 (gostyngiad o 27% o gymharu â lefelau 1990) a'i Chyllideb Garbon Gyntaf (gostyngiad o 23% ar gyfartaledd rhwng 2016 a 2020 o gymharu â lefelau 1990) ar sail y wybodaeth bresennol, ar yr amod nad yw allyriadau'n codi yn 2019 a 2020."

Felly, mae Llywodraeth Cymru yn hyderus y byddwn yn cyflawni ein Cyllideb Garbon Gyntaf a'n targed ar gyfer 2020. Mae hyn wedi cael ei gadarnhau gan y data diweddaraf ar allyriadau a gyhoeddwyd ar 15 Mehefin 2021. Mae dangos bod allyriadau yng Nghymru yn 2019 yn 31% yn is na'r llinell sylfaen.

Mae arnom ddyletswydd i baratoi ymateb i'r pwyntiau a nodir mewn adroddiad gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, o fewn chwe mis i'r adroddiad gael ei gyhoeddi, a'i gyflwyno gerbron y Senedd. Mae'r adroddiad hwn yn bodloni'r ddyletswydd hwnnw.

## Y dyfodol

Adrodd ar y Gyllideb Garbon Gyntaf a'r targed ar gyfer 2020

Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol inni gyhoeddi datganiad terfynol ar y Gyllideb Garbon Gyntaf a'r targed ar gyfer 2020 cyn diwedd 2022, pan fydd data ar gyfer yr holl gyfnod ar gael. Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys ein hasesiad o'r graddau mae'r polisïau a'r cynigion ar gyfer cyflawni'r Gyllideb Garbon wedi cael eu gweithredu ac wedi cyfrannu at gyflawni'r Gyllideb Garbon (neu fethu gwneud hynny).

Y cynllun ar gyfer yr Ail Gyllideb Garbon

Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn ei gwneud yn ofynnol inni gyhoeddi cynllun ar gyfer cyflawni pob cyllideb garbon cyn diwedd blwyddyn gyntaf cyfnod y gyllideb garbon honno. Dechreuodd cyfnod yr ail gyllideb garbon ar 1 Ionawr 2021 a bydd yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2025. Byddwn yn cyhoeddi'r cynllun ar gyfer yr Ail Gyllideb Garbon cyn COP26 ym mis Tachwedd. Bydd y cynllun yn amlinellu'n fanwl ein polisïau a'n cynigion ar gyfer cyflawni'r Ail Gyllideb Garbon, gan gynnwys y meysydd â blaenoriaeth a nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor ym mis Rhagfyr.

---

[1] Adroddiad Cynnydd: Lleihau Allyriadau yn Nghymru (Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Rhagfyr 2020), t.20

# Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd

Yn yr ymateb hwn rydym yn nodi ac yn ymateb i bob un o'r argymhellion a'r blaenoriaethau strategol a nodwyd gan y Pwyllgor yn ei adroddiad.

## 1. Llunio deddfwriaeth sy'n gosod targedau uchelgeisiol i wneud yr holl economi'n economi carbon sero-net erbyn 2050.

Ym mis Mai 2019 argymhellodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd y dylai Llywodraeth Cymru gynyddu'r targed ar gyfer lleihau allyriadau yng Nghymru o 80% i 95%. Gwnaethom groesawu cyngor y Pwyllgor ond datgan bod gennym uchelgais i fynd ymhellach byth, a gosod targed o sero-net. Gwnaethom ofyn i'r Pwyllgor am gyngor ar yr opsiynau sydd ar gael i Gymru mewn perthynas â chyflawni'r nod hwnnw.

Ym mis Rhagfyr 2020 cyhoeddodd y Pwyllgor gyngor newydd ar gyfer Cymru a oedd yn cadarnhau bod yr uchelgais yn gredadwy. Ym mis Mawrth 2021 cytunodd y Senedd i adolygu targedau statudol Cymru ar gyfer yr hinsawdd yn unol â holl argymhellion y Pwyllgor yn adroddiad Rhagfyr 2020.

- Cyllideb Garbon 2 (2021–25): Gostyngiad o 37% ar gyfartaledd
- Cyllideb Garbon 3 (2026–30): Gostyngiad o 58% ar gyfartaledd
- 2030: Gostyngiad o 63%
- 2040: Gostyngiad o 89%
- 2050: Gostyngiad o 100% o leiaf ('sero-net')

Cytunodd y Senedd hefyd i osod terfyn credyd rhyngwladol ('gwrthbwyso') o 0% ar gyfer Cyllideb Garbon 2, sy'n golygu y bydd angen sicrhau'r gostyngiad drwy weithgareddau yng Nghymru yn unig.

## 2. Rhaid defnyddio’r amrediad llawn o bolisïau datganoledig a pholisïau a gedwir yn ôl gyda’i gilydd.

O fewn y llwybr mae’r Pwyllgor Newid Hinsawdd wedi’i argymell mae tua 60% o’r holl ostyngiadau yn 2050 mewn meysydd lle mae’r rhan fwyaf o bolisïau wedi’u cadw’n ôl gan San Steffan. Er bod gan Lywodraeth Cymru rôl hanfodol i’w chwarae, bydd angen hefyd Lywodraeth y DU chwarae ei rhan wrth leihau allyriadau yng Nghymru, ac i alluogi’r gwaith o sicrhau dyfodol glanach a mwy ffyniannus.
Mae’r Grŵp Rhwng-weinidogol ar Sero-net, Ynni a Newid Hinsawdd, sy’n cwrdd bob dau fis, yn rhoi cyfle i Weinidogion Cymru wneud eu hachos dros weld Llywodraeth y DU yn gwneud mwy yng Nghymru, ac i wella cydlynu rhwng llywodraethau. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU ar ddatblygu ei Strategaeth Sero-net newydd. Bydd y ddogfen hon yn allweddol wrth lywio datgarboneiddio yng Nghymru a’r DU gyfan ar gyfer y rhan fwyaf o’r 2030au.

## 3. Mae pob gweinidog, cyfarwyddiaeth a chorff cyhoeddus yn gyfrifol am sicrhau carbon sero-net ac ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd.

Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol inni lunio cynllun gweithredu ar ddatgarboneiddio sy'n cynnwys polisïau a chynigion sy'n ymdrin â meysydd cyfrifoldeb pob un o Weinidogion Cymru. Mae gennym strwythur llywodraethu cynhwysfawr, trawslywodraethol i ategu ein gwaith ar liniaru ac ymaddasu, gan gynnwys:

- Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogion
- Bwrdd Portffolio Newid Hinsawdd, sy'n cynnwys Cyfarwyddwyr o ar draws Llywodraeth Cymru
- Gweithgorau i gydlynu'r gweithgareddau

Ein huchelgais yw i'r holl sector cyhoeddus fod yn garbon niwtral erbyn 2030. Rydym wedi cyhoeddi canllawiau ar adrodd yn ddiweddar ar gyfer cyrff cyhoeddus, a fydd yn ategu ffordd fwy cynhwysfawr o ddeall gwir lefelau'r allyriadau o sefydliadau yn y sector cyhoeddus, gan symud y tu hwnt i adeiladau a defnyddio ynni i gynnwys ffactorau eraill megis trafnidiaeth a chaffael.[2] Rydym hefyd wedi cyhoeddi map ffordd ar gyfer gwireddu'r uchelgais. Mae'n rhannu'r naw mlynedd nesaf yn dri cham ar wahân: symud i'r gêr nesaf (2021–22), wedi gwneud cryn gynnydd (2022–26) a chyflawni ein nod (2026–30), ac mae'n ystyried y cerrig milltir allweddol o fewn y pedair blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer cyflawni:

- Caffael
- Adeiladu
- Symudedd a Thrafnidiaeth
- Defnyddio Tir

Mae trafodaethau ynghylch newid hinsawdd yn cael eu cynnal yn rheolaidd ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru, a bydd y canlyniadau'n cael eu dangos yn y cynllun nesaf ar gyfer lleihau allyriadau.

[2] Canllaw Sector Cyhoeddus ar gyfer Adrodd ar Garbon Sero-net (Llywodraeth Cymru 2021)

## 4. Cefnogi adferiad cadarn o COVID-19.

Ein huchelgais cyffredinol yw greu Cymru decach, wyrddach a mwy cadarn. Wrth inni ymateb i'r pandemig rydym yn benderfynol na fydd neb yn cael ei anwybyddu, gan sicrhau ein bod yn trosglwyddo i ddyfodol mwy cynaliadwy mewn modd teg. Wrth inni adfer mae'n bwysig ein bod yn ceisio cadw rhai o'r newidiadau cadarnhaol rydym wedi'u gweld, fel yr opsiwn o weithio gartref, llai o draffig, byd natur iachach ac ymwybyddiaeth gynyddol o ba mor bwysig yw adnoddau.
Cyhoeddodd y Cwnsler Cyffredinol blaenorol *Ail-greu ar ôl COVID-19 – Heriau a Blaenoriaethau* ym mis Hydref 2020, yn dilyn trafodaethau helaeth â rhanddeiliaid a'r cyhoedd ynghylch y weledigaeth ar gyfer Cymru yn y dyfodol wrth inni adfer o'r pandemig.[3] Mae'r ddogfen yn glir y bydd yr adferiad gwyrdd yn ganolig i'r gwaith o adeiladu.

[3] Ail-greu ar ôl COVID-19 – Heriau a Blaenoriaethau (Llywodraeth Cymru 2020)

## 5. Sicrhau trosglwyddiad teg ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol.

Rydym yn gweithio i ddeall effaith lawn y broses o drosglwyddo i gymdeithas carbon sero-net, gan ystyried y risgiau a'r cyfleoedd.

Mae trosglwyddiad teg yn golygu deialog gyhoeddus ynghylch sut mae costau'r trosglwyddiad yn cael eu talu, ac i ba raddau y disgwylir i gartrefi a busnesau dalu. Ers cyhoeddi *Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel*[4] ym mis Mawrth 2019 rydym wedi gweithio gydag amrediad o randdeiliaid ar y mater pwysig hwn, gan gynnwys Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, Sefydliad Grantham mewn partneriaeth â Chyllid y DU a'r Rhwydwaith Gweithredu ar yr Hinsawdd ar sail Lleoedd a'r Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus. Rydym wedi gwneud cynnydd wrth ymsefydlu'r angen am drosglwyddiad teg o fewn y dull partneriaeth gymdeithasol, gan weithio gyda Chyngres yr Undebau Llafur yn ystod Wythnos Hinsawdd Cymru 2020 a thrwy'r Panel Strategaeth Datgarboneiddio Llywodraeth Leol newydd.[5]

Rydym yn cydnabod y bydd angen rhagor o waith, ac rydym yn chwilio yn weithredol am ffyrdd o ddysgu gan eraill yn COP26 ym mis Tachwedd.

[4] Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel (Llywodraeth Cymru 2019)
[5] https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-07/decarbonisation-and-local-government.pdf

## 6. Strategaeth hirdymor, gydlynus ar gyfer sicrhau gwres carbon isel ac effeithlonrwydd ynni yng Nghymru yn y dyfodol. Bydd hyn yn dibynnu yn drwm ar benderfyniadau Llywodraeth y DU, fel dyfodol y grid nwy a threthi a phrisiau ynni.

Rydym yn cydnabod ac yn derbyn yr angen am ddull hirdymor, strategol ar gyfer datgarboneiddio adeiladau. Bydd hyn yn bwysig wrth cyrraedd ein targedau hinsawdd, am fod adeiladau'n cyfrif am tuag 10% o'r allyriadau yng Nghymru.[6] Wrth wneud hyn bydd angen inni sicrhau trosglwyddiad teg, gan sicrhau nad yw'r camau rydym yn eu cymryd yn tanseilio ein gwaith i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a darparu manteision economaidd a chymdeithasol.

<u>Y system ynni</u>

Rydym wedi defnyddio dull partneriaeth wrth inni ddatblygu ein hymateb i heriau cymhleth datgarboneiddio gwres. Rydym yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu pedair Strategaeth Ynni Ranbarthol, sy'n nodi'r cyfleoedd ar gyfer darparu manteision economaidd a chymdeithasol drwy system ynni carbon isel. Mae'r gwaith hwn yn modelu galw yn y dyfodol am bŵer, ynni a thrafnidiaeth, ac mae'n cynnwys asesiad o effeithiau economaidd cyflawni'r uchelgeisiau arfaethedig. Mae'r strategaethau'n nodi maint y newid sydd ei angen i sicrhau system ynni carbon isel a sefydlu blaenoriaethau ar gyfer pob rhanbarth.

Bydd ein hymrwymiad i gynlluniau ynni lleol yn sicrhau lefelau uwch o lawer o fanylder, er mwyn nodi'r camau penodol sydd eu hangen ar gyfer pob cymuned. Ar hyn o bryd rydym yn cefnogi dwy raglen beilot ar gyfer Cynlluniau Ynni Lleol yn ardal Awdurdodau Lleol Conwy a Chasnewydd, ac rydym yn disgwyl i ragor o ardaloedd ddechrau ar y gwaith hwn yn ystod 2021–22. Bydd y gwaith hwn yn ceisio nodi'r camau risg isel ar gyfer datgarboneiddio'r system ynni. Gall darparwyr y rhwydwaith grid hefyd ddefnyddio'r cynlluniau i lywio eu cynlluniau a dylanwadu ar eu penderfyniadau ynghylch buddsoddi mewn seilwaith grid newydd.

Bydd Strategaethau Ynni Rhanbarthol a'n dull ar gyfer cynllunio ynni yn darparu'r sail dystiolaeth mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni a gwres, fel rhan o system ynni carbon isel. Byddwn yn adeiladu ar y dystiolaeth hon i sefydlu cyfeiriad strategol clir ar gyfer datgarboneiddio gwres.

<u>Adeiladu</u>

Ers 2017 rydym wedi gweithio mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys arbenigwyr sector, academyddion ac arloeswyr, i ddatblygu dull system gyfan sy'n

[6] Nid yw'r Rhestr Nwyon Tŷ Gwydr yn darparu dadansoddiad ar wahân o'r allyriadau sy'n cael eu rhyddhau o systemau gwresogi. Nid yw'n ein galluogi i nodi allyriadau sy'n deillio o ddyfeisiau llosgi tanwydd mewn adeiladau, sy'n cynnwys gwres a choginio. Mae hyn yn cyfrif am 10.4% o'r allyriadau yng Nghymru (9.3% mewn adeiladau domestig ac 1.2% mewn adeiladau nad ydynt yn ddomestig).

seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer datgarboneiddio cartrefi presennol. Cyfeirir at y dull hwn fel ôl-osod wedi'i optimeiddio. Mae'r Rhaglen Ôl-osod Wedi'i Optimeiddio yn sicrhau gwelliannau i adeiladwaith, systemau gwresogi a defnyddio cyflenwadau ynni mewn ffordd ddeallus i wireddu ein huchelgeisiau ar gyfer datgarboneiddio, wrth osgoi buddsoddi anghytbwys mewn unrhyw un rhan o'r system. Mae'r gwaith o dreialu'r dull hwn yn 2020/21 yn cynnwys cynyddu capasiti a gallu, cyn ei fabwysiadu mewn meysydd polisi eraill.

Mae Rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru lwyddiannus wedi mynd i'r afael â thlodi tanwydd ac wedi gwella effeithlonrwydd ynni 225,000 o gartrefi cymdeithasol, gyda'r rhan fwyaf ohonynt bellach yn derbyn EPC D. Mae'n debygol y bydd y fersiwn nesaf o'r rhaglen hon, sydd i'w chyhoeddi ym mis Ionawr 2022, yn herio landlordiaid cymdeithasol i fodloni EPC A gan ddefnyddio'r dull ôl-osod wedi'i optimeiddio.

Ar y cyd â chyrff cynrychiadol y sector cyhoeddus, bydd map ffordd ar gyfer adeiladau tai cymdeithasol newydd sy'n garbon sero-net yn cael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2021. Bydd hwn yn amlinellu disgwyliadau clir i'r sector tai adeiladu tai sy'n cyfrannu at fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Bydd y camau yn y map ffordd yn wirfoddol i ddechrau, ond mae'n debygol y byddant yn orfodol o 2024/2025.

Mae'n ofynnol i dai fforddiadwy newydd sy'n cael eu hadeiladau yng Nghymru fod mor effeithlon o ran ynni ag y bo modd. O fis Ebrill 2021, bydd angen i'r holl gynlluniau sy'n cael eu cyflwyno sydd i'w datblygu â chyllid tai gan Lywodraeth Cymru ddangos eu bod yn bodloni EPC A.

Yn dilyn ymgynghoriad, ym mis Mawrth 2021 gwnaethom gyhoeddi gostyngiad o 37% mewn allyriadau carbon ar gyfer cartrefi newydd (o'u cymharu â'r safonau presennol), i'w weithredu o 2022. Mae hyn yn garreg sarn tuag at y newidiadau sydd ar y gweill ar gyfer 2025, pan fydd angen i gartrefi gynhyrchu 75% llai o $CO_2$ nag y maent ar hyn o bryd.
Ym mis Mawrth 2021 gwnaethom hefyd gyhoeddi cynllun ar gyfer mynd i'r afael â thlodi tanwydd.[7] Mae'n cynnwys pedwar nod polisi o fewn cymhwysedd datganoledig a fydd yn lleihau tlodi tanwydd erbyn 2035. Mae'r nod datgarboneiddio yn ein rhwymo i wella effeithlonrwydd thermal ac ynni mewn cartrefi incwm is yn y sector perchennog-meddiannydd a'r sector rhentu preifat, a thrwy hynny lleihau biliau ynni ac allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae'r cynllun yn cynnwys deg cam gweithredu â blaenoriaeth ar gyfer 2021–2023, gan gynnwys buddsoddi parhaus mewn gwelliannau i effeithlonrwydd ynni cartrefi drwy'r rhaglen Cartrefi Clyd.[8]

Ar draws yr holl elfennau hyn, rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ac i alw arnynt i gefnogi ein huchelgeisiau drwy eu pwerau a gedwir yn ôl.

[7] Trechu tlodi tanwydd 2021 i 2035 (Llywodraeth Cymru 2021)
[8] https://llyw.cymru/cael-help-gydag-effeithlonrwydd-ynni-aelwydydd

## 7. Cynllun cymorth gwledig newydd a fydd yn ysgogi gostyngiadau mawr mewn allyriadau yn y sector amaeth wrth gefnogi coedwigaeth.

Daeth ein hymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar Amaethyddiaeth i ben ar 25 March 2021. Mae'r Papur Gwyn yn amlinellu'r cynigion i ddisodli Cynllun y Taliad Sylfaenol a chynlluniau amaeth-amgylchedd eraill yr UE â chynllun cymorth uniongyrchol sengl ar gyfer ffermio. Bwriedir i'n Cynllun Ffermio Cynaliadwy ddechrau yn 2024, a bydd yn rhoi cymhellion priodol i ffermwyr am gynhyrchu pethau ychwanegol na ellir eu marchnata (priddoedd gwell, aer glân, dŵr glân, cynefinoedd mewn cyflwr gwell, camau i leihau cynhesu byd-eang) ar lefelau wedi'u pennu gan reoliadau, drwy reoli tir mewn modd cynaliadwy. Bydd hefyd yn darparu cyngor a chymorth ar gyfer ffermwyr a busnesau ffermio.

Bydd y cynllun arfaethedig yn helpu ffermydd i gynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy, wrth eu galluogi i adael ôl troed carbon isel iawn, cynyddu bioamrywiaeth a lleihau'r maethynnau sy'n cael eu colli i'r aer ac i ddŵr. Mae'r cynigion yn cynnwys galluogi datgarboneiddio amaethyddiaeth a chamau i gynyddu maint dalfa garbon Cymru drwy amrywiaeth o arferion rheoli tir, mae'r rhain yn cynnwys:

- cynyddu perfformiad da byw drwy wella iechyd anifeiliaid a thrwy welliannau genetig
- rheoli a lleihau mewnbynnau fel gwrtaith artiffisial
- gwella iechyd pridd a lefelau carbon mewn pridd
- effeithlonrwydd ynni gwell a defnyddio ynni adnewyddadwy
- cynyddu'r gorchudd coed drwy amaeth-goedwigaeth
- adfer a rheoli cynefinoedd naturiol yn well – er enghraifft, mawndir.

## 8. Strategaeth Drafnidiaeth Derfynol ar gyfer Cymru sy'n gwneud cerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn hawdd, ac yn sicrhau bod y broses o newid i gerbydau trydan yn gweithio ar gyfer pawb sy'n defnyddio'r ffyrdd yng Nghymru.

Ym mis Mawrth 2021 gwnaethom gyhoeddi Lwybr Newydd: Y Strategaeth Drafnidiaeth i Gymru.[9] Mae'n sefydlu gweledigaeth 20 mlynedd ar gyfer system drafnidiaeth hygyrch, gynaliadwy ac effeithlon sy'n seiliedig ar dair blaenoriaeth:

- Dod â gwasanaethau i bobl i leihau'r angen i deithio
- Galluogi pobl a nwyddau i symud yn hawdd o ddrws i ddrws drwy wasanaethau a seilwaith trafnidiaeth sy'n hygyrch, cynaliadwy ac yn effeithlon
- Annog pobl i newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy

Mae'r Strategaeth yn sefydlu hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy a fydd yn arwain penderfyniadau mewn perthynas â seilwaith newydd, ac mae'n rhoi blaenoriaeth i gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus, wedyn cerbydau allyriadau isel iawn ac yn olaf cerbydau preifat.

Rydym wedi nodi pedwar maes allweddol sy'n berthnasol i bob dull a sector teithio ac sy'n hanfodol i Lwybr Newydd: datgarboneiddio, cydraddoldeb, cynllunio teithiau integredig a'r cynnig gwledig. Byddwn yn datblygu llwybr cyflawni ar gyfer pob maes. Bydd pob llwybr yn rhestru'r ymrwymiadau penodol yn Llwybr Newydd ac yn mapio'r hyn mae angen ei wneud i'w cyflawni. Byddwn yn sefydlu gweithgor i oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r llwybr. Mae Llwybr Newydd hefyd yn cynnwys naw cynllun bach sy'n dangos sut bydd sectorau a dulliau teithio unigol yn cyflawni ein blaenoriaethau. Mae cynlluniau bach ar gyfer teithio llesol, bysiau a threnau.

Hefyd ym mis Mawrth 2021 Gwnaethom gyhoeddi'r Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan ar gyfer Cymru.[10] Mae'r strategaeth hon yn derbyn yr angen uniongyrchol am ragor o fannau gwefru a seilwaith gwefru gwell i sicrhau bod defnyddwyr yn gallu bod yn hyderus wrth newid i gerbydau trydan. Mae gennym weledigaeth y bydd pawb sy'n defnyddio ceir a faniau trydan yn hyderus y gallant ddod o hyd i seilwaith gwefru, pan fydd angen gwefru eu cerbydau trydan, erbyn 2025. Yn y misoedd nesaf byddwn yn cyhoeddi ein Cynllun Gweithredu Gwefru Cerbydau Trydan, a fydd yn amlinellu'r camau gweithredu ategol y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod y weledigaeth hon yn cael ei gwireddu.

[9] Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 (Llywodraeth Cymru 2021)
[10] Strategaeth gwefru cerbydau trydan ar gyfer Cymru (Llywodraeth Cymru 2021)

## 9. Arwain ymateb trawslywodraethol cryf i'r risgiau cenedlaethol mwyaf dybryd sy'n cael eu hamlinellu yn y Trydydd Asesiad Risg o Newid Hinsawdd yn y DU.

Mae ein cynllun presennol ar gyfer ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd, Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd, yn amlinellu ein hymateb polisi ar gyfer mynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd.[11] Mae'r cynllun yn cynnwys darparu ar gyfer sicrhau dull cadarn, cydgysylltiedig a thraws-sector – o fewn Llywodraeth Cymru a chyda rhanddeiliaid ehangach. Mae'r Fframwaith Monitro a Gwerthuso yn amlinellu'r dull ar gyfer llywodraethu, monitro ac adrodd, sy'n bwydo i mewn i'r trefniadau a amlinellir uchod.

Byddwn yn gweithio ar draws y llywodraeth i adolygu ein camau gweithredu a'n prosesu ar gyfer ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd, yng ngoleuni'r dystiolaeth ddiweddaraf yn Adroddiad Technegol a Chrynodeb CCRA3 sydd i'w gyhoeddi ym mis Mehefin 2021.

[11] Ffyniant i bawb: Cymru sy'n effro i'r hinsawdd (Llywodraeth Cymru 2019)

## 10. Cyflymu buddsoddiadau mewn seilwaith carbon isel a seilwaith ar gyfer ymaddasu i’r newid yn yr hinsawdd lle bynnag y bo modd, i ysgogi economi Cymru, adeiladau capasiti cynhyrchu hirdymor a gwella cydnerthedd yr hinsawdd.

Rydym eisoes wedi buddsoddi mewn technoleg carbon isel ac ymaddasu i newid yn yr hinsawdd. Yn 2020–21 gwnaethom ddyrannu dros £140 miliwn o gyllid cyfalaf i helpu i fynd i’r afael â’r argyfwng hinsawdd. Yn 2021–22, yn ogystal â chynnal y rhan fwyaf o’r cyllid hwn mewn llinellau sylfaen adrannol, gwnaethom ddyrannu cyfalaf ychwanegol gwerth bron i £80 miliwn i gyflawni ymyriadau sy’n hyrwyddo datgarboneiddio ac yn gwella bioamrywiaeth ymhellach, ynghyd â chyllid ychwanegol gwerth £17 miliwn i ategu’r ymyriadau hyn.

Mae Cynllun Gwella’r Gyllideb[12] a gyhoeddwyd ochr yn ochr â’r Gyllideb Ddrafft, yn amlinellu gwelliannau arfaethedig i brosesau cyllidebu a threthu i sicrhau bod ein buddsoddiadau’n cael yr effaith orau posibl, gan gynnwys gwaith paratoi sy’n mynd rhagddo i ddatblygu olynydd i’r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru ar gyfer y deng mlynedd presennol.[13]

Bydd y strategaeth newydd ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith yn gosod y safon ar gyfer buddsoddiadau Llywodraeth Cymru mewn seilwaith, a bydd yn cael ei llunio ar sail pedair thema llesiant, sef yr economi, yr amgylchedd, y gymdeithas a diwylliant. Wrth ei gwraidd bydd ymateb Llywodraeth Cymru i’r argyfwng hinsawdd, gan gynnwys yr ymrwymiadau i sicrhau carbon sero-net a mynd i’r afael â dirywiad bioamrywiaeth.

[12] Cynllun Gwella’r Gyllideb (Llywodraeth Cymru 2020)
[13] Cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru (Llywodraeth Cymru 2012)

## 11. Trafod â phobl a busnesau yng Nghymru – gan adeiladu ar waith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Chynulliad Hinsawdd y DU – i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i symud i gymdeithas carbon sero-net, helpu pobl i ddeall yr effaith y bydd y newid yn ei chael ar eu bywydau nhw, a gwneud dewis opsiynau carbon isel yn hawdd.

Gan weithio'n agos gyda chyflogwyr, rydym yn adolygu'r holl sgiliau presennol a'r rhaglenni dysgu yn y gweithle i archwilio sut y gallent fod yn fwy hyblyg wrth ymateb i'r gofynion sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys y newid i gymdeithas carbon sero-net. Bydd canlyniadau archwiliad sgiliau'r Rhaglen Ôl-osod Wedi'i Optimeiddio yn llywio'r gwaith hwn.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd trafod ynghylch y testun pwysig hwn. Rydym wedi darparu cymorth ar gyfer mentrau sy'n codi ymwybyddiaeth o'r newidiadau sydd eu hangen er mwyn trosglwyddo i gymdeithas carbon sero-net. Ynghynt eleni gwnaethom gefnogi Cynulliad Dinasyddion cyntaf Cymru ar yr Hinsawdd ym Mlaenau Gwent, fel rhan o'n hymgyrch i greu cymunedau carbon isel enghreifftiol wrth ehangu'r gwaith o ddarparu tai cymdeithasol o ansawdd uchel.[14] Fis Tachwedd diwethaf gwnaethom gynnal Wythnos Hinsawdd cyntaf Cymru, gyda dros 2,000 o bobl yn cymryd rhan i gyfrannu at gynllun gweithredu Cymru gyfan lle mae cyrff cyhoeddus eraill, busnesau a chymunedau yn gwneud ymrwymiadau sy'n cyfateb i ymrwymiadau'r Llywodraeth.

Cafodd ein dull ehangach a manylach ar gyfer ein cynllun nesaf i leihau allyriadau ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2020.[15]

[14] https://cynnalcymru.com/cynulliad-hinsawdd-blaenau-gwent/?lang=cy
[15] Cynllun Cyflawni Carbon Isel 2: cynllun ymgysylltu (Llywodraeth Cymru 2020)